# Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam: Beth ydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud

**Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022**



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 4

2. Crynodeb o berfformiad 5

Cefndir 5

Canmoliaeth a Chwynion 5

3. Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau 7

Arolwg Gofalwyr Di-Dâl - Crynodeb o Ymatebion 7

Canolbwynt Cyfeillgarwch 8

Gweithio gyda'r Trydydd Sector 8

Canolbwynt Lles Wrecsam 8

Swyddogion Datblygu 8

4. Gwella lles (Y Chwe Safon) 9

Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant 9

Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol 15

Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 21

Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 25

Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach 30

Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion 34

5. Sut Ydym yn Darparu ar Gyfer Ein Dinasyddion 38

A. Datblygu Ein Gweithlu 38

B. Cyllid a Chynllunio ar Gyfer y Dyfodol 38

C. Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol 39

Gweithio mewn Partneriaeth 39

Trefniadau Diogelu 40

6. Rhagor o wybodaeth 42

Atodiad 1: Fframwaith Mesur Perfformiad 44

Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant 44

Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol 45

Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 46

Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 47

Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach 48

Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion 49

# 1. Cyflwyniad

Mewn amser 'arferol' nid yw gwasanaethau cymdeithasol bob amser y mwyaf gweladwy o wasanaethau'r cyngor - nes byddwch ei angen wrth gwrs. Yna mae'n gwneud gwahaniaeth anferthol i'ch bywyd ac i fywydau eich anwyliaid.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, eto, nid yw'r sefyllfa wedi bod yn 'arferol' ac mae rôl gofalwyr - proffesiynol a di-dâl - wedi bod yn hanfodol ac yn weladwy.

Yn adroddiad y llynedd, gwnaethom ddweud wrthych ein bod eisiau canolbwyntio ar bethau fyddai'n ein helpu ni i helpu pobl a theuluoedd. Eleni, byddwn yn gadael i chi wybod beth ddigwyddodd i'r pethau hynny, ond byddwch hefyd yn darllen llawer am y pethau wnaethom yn wahanol wrth i ni barhau i ymateb i'r pandemig Covid.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur arall, ond rydym wedi gwneud cynnydd cadarnhaol i wella'r hyn rydym yn ei gynnig i blant ac oedolion. Rydym wedi gweithio i wella gwasanaethau plant yn unol â chynllun gwella sy'n ganolog i'n cynnydd ac o fewn gwasanaethau oedolion rydym wedi gweithio gyda'r bwrdd iechyd i gefnogi gwasanaethau gofal preswyl a chartref i adfer a chefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Beth bynnag fo heriau'r flwyddyn i ddod, rydym wedi ymrwymo i'r hyn sydd angen ei wneud; i ddatblygu a darparu gwasanaethau cadarn a chlyfar, gyda phlant, teuluoedd a'r bobl rydym yn eu cefnogi yn y ganolfan, gan helpu i ddatblygu ein gwasanaethau i gyflawni canlyniadau o bwys.

## 2. Crynodeb o berfformiad

### Cefndir

Mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru gyhoeddi adroddiad am ei Wasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Dyma ein hadroddiad ni.

Y nod yw gwerthuso pa mor dda y darparwyd ein gwasanaethau, a thynnu sylw at unrhyw welliannau sy'n ofynnol.

Hefyd mae'n gyfle i esbonio sut rydym yn bwriadu helpu pobl dros y flwyddyn i ddod – pobl y mae arnynt angen cymorth a chefnogaeth, a gofalwyr a allai fod angen ein cymorth ni.

Wrth i chi ddarllen trwy'r tudalennau hyn fe wnewch chi sylwi ein bod ni'n sôn am chwe 'safon ansawdd.' Mae'r rhain yn rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (byddwn yn cyfeirio ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen).

Mae fformat yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf, a'r angen i fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o ran y chwe safon.

Mae'n bwydo i'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru – cynorthwyo i greu gwlad yr ydym i gyd yn dymuno byw ynddi. Nawr ac yn y dyfodol.

Yn olaf, fe sylwch ein bod yn cyfeirio at 'ganlyniadau' yn aml. Mae hyn oherwydd bod gymaint o'n gwaith yn canolbwyntio ar helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyrraedd..

### Canmoliaeth a Chwynion

Mae cwynion yn derbyn sylw yn unol â gweithdrefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol statudol a reolir gan dîm cwynion canolog yn y cyngor. Mae gan y tîm berthynas waith ardderchog gydag uwch reolwyr ar draws yr adran ac maent yn cysylltu'n rheolaidd i fynd i'r afael â chwynion.

Mae adroddiad llawn ar gwynion a chanmoliaeth yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu perthnasol yn flynyddol ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod y cwynion a dderbynnir yn cael eu craffu'n briodol gan aelodau ac yn cynnig tryloywder i'r cyhoedd (tra'n sicrhau bod manylion achwynydd yn parhau'n gwbl gyfrinachol).

Yn ystod 2021/22 roedd y nifer o gwynion a dderbyniwyd wedi gostwng, gan dderbyn 40 o'i gymharu â 42 yn ystod 2020/21.

Cafodd saith cwyn eu hymchwilio yn annibynnol yn ystod Cam 2. Nid yw hyn wedi newid ers y saith ymchwiliad yn 2020/21.

Cafwyd 55 canmoliaeth yn ystod 2021/22, gan amlygu gwerthfawrogiad oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd am y gefnogaeth a ddarparwyd:

### Enghraifft o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd gan gofal cymdeithasol i oedolion:

> 'Roedd yn anhygoel pa mor gyflym y cafodd pethau eu rhoi ar waith i ni. Byddaf yn wirioneddol ddiolchgar am byth. Ni allem fod yn hapusach gyda'r modd y deliwyd â phethau. Fel yr wyf yn dweud, roedd y cyfan, y tîm cyfan, eich cydweithwyr wedi trefnu popeth."

### Enghraifft o'r ganmoliaeth a dderbyniwyd gan gofal cymdeithasol i blant:

> "Roeddwn eisiau gadael i chi wybod fod X yn seren. Fel rydych yn llwyr ymwybodol rwy'n siŵr, mae ei sgiliau trefnu a sylw i fanylder yn wych. Mae bob amser yn brydlon ac yn bleser gweithio gydag ef. Mae hefyd yn canolbwyntio ar blant ac mae plant yn ei addoli. Mae'n gwneud ein gwaith gymaint haws, a werthfawrogir yn fawr."

## 3. Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau

Mae gwrando ar y bobl yr ydym yn eu cefnogi yn hanfodol. Mae'n ymwneud â sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn datblygu ein dull ar gyfer 'cydgynhyrchu' - ble mae pobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd i ddatblygu ein gwasanaethau yn ystod pob cam.

### Esbonio'r jargon – 'Cydgynhyrchu'

Mae 'cydgynhyrchu' yn cyfeirio at waith a wnaed gyda chyfraniad llawn a chyfartal defnyddwyr y gwasanaethau. Mewn geiriau eraill, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael dweud eu dweud am benderfyniadau a newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw.

### Arolwg Gofalwyr Di-Dâl - Crynodeb o Ymatebion

Fel sefydliad ac adran rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi cyfraniadau enfawr gofalwyr di-dâl, yn arbennig drwy'r ddwy flynedd ddiwethaf hynod heriol. Yn anffodus, wrth adolygu ein harolwg gofalwyr di-dâl eleni, nid dyma oedd profiad llawer o ofalwyr di-dâl yn Wrecsam. Er bod yr arolwg ond wedi gweld 11% yn dychwelyd, sy'n awgrymu ein bod angen gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl, mae'r ymatebion a'r sylwadau yn parhau i achosi pryder i ni:

- Roedd 45% o ofalwyr di-dâl oedd yn derbyn cefnogaeth neu wasanaethau yn cytuno bod gofal cymdeithasol oedolion wedi darparu lefel dda o gefnogaeth sydd wedi helpu i wella ansawdd eu bywyd.
- Roedd 38% o ofalwyr yn anghytuno/anghytuno'n gryf bod gofal cymdeithasol oedolion wedi darparu lefel dda o gefnogaeth sydd wedi helpu i wella ansawdd eu bywyd.

Adroddiad llawn ar gael yn [wrecsam.gov.uk](wrecsam.gov.uk)

Mewn ymateb i hyn, byddwch yn gweld yn ddiweddarach yn yr adroddiad y buddsoddiad rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau mae pobl yn sôn wrthym amdanynt; rydym hefyd yn bwriadu gwneud newidiadau a gwelliannau sylweddol i'r ffordd rydym yn casglu adborth gan ofalwyr di-dâl a'u cyfraniad at ddatblygu gwasanaeth.

## Canolbwynt Cyfeillgarwch

“Mae’r Canolbwynt Cyfeillgarwch a SWS wedi bod mor ddefnyddiol. Ar ôl symud i ardal newydd mae wedi fy helpu i setlo i mewn yn fawr iawn.

" Rwy’n mwynhau gweithio ar Fannau Diogel yn fawr iawn gan fy mod yn hoffi ceisio gwneud pethau’n ddiogel i bawb, yn arbennig pobl ag anableddau”, Peter Davies, aelod Canolbwynt Cyfeillgarwch newydd”

- Peter Davies, aelod Canolbwynt Cyfeillgarwch newydd.

## Gweithio gyda’r Trydydd Sector

Mae’r tîm yn ein corff sector gwirfoddol, AVOW wedi bod yn gweithio gyda ni dros y 12 mis diwethaf, yn ein helpu i ymgysylltu â’r trydydd sector yn Wrecsam wrth i ni barhau i weithio gyda’n gilydd yn ein hymdrechion i adfer o’r pandemig, i fwyhau cyfleoedd arian grant i ddinasyddion Wrecsam a datblygu gwasanaethau newydd a chyffrous.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd AVOW yn ffarwelio a’r cyn Gyfarwyddwr, John Gallanders ac yn croesawu Cyfarwyddwr newydd, Dawn Roberts McCabe. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i John am ei gyfraniad sylweddol i’r Trydydd Sector yn Wrecsam a’i ymrwymiad i waith partneriaeth i ddatblygu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol.

## Canolbwynt Lles Wrecsam

Mae AVOW wedi bod yn cynrychioli barn y trydydd sector i ddatblygu Cyfleuster Iechyd a Lles Cymunedol newydd drwy ailddatblygu Adeiladau’r Goron. Roeddent yn darparu cipolwg gwerthfawr a chyfle i ddatblygu gwasanaeth hynod gynhyrchiol i ddinasyddion Wrecsam, gallwch ddarllen am y cynnydd yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

## Swyddogion Datblygu

Rydym hefyd wedi gweithio’n agos gydag AVOW eleni i wella mynediad i arian Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer recriwtio swyddogion datblygu newydd. Bydd swyddogion yn cael eu recriwtio yn fuan i ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol i gefnogi meysydd blaenoriaeth fel creu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed a phrosiectau dementia.

## 4. Gwella lles (Y Chwe Safon)

Dyma'r chwe safon y soniwyd amdanyn nhw ynghynt.

Mae llawer o wybodaeth yma, felly rydym ni wedi'u rhannu'n ddwy adran i adlewyrchu'r ddwy adran o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol- Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant.

### Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant

Mae hyn yn swnio'n gymhleth, ond mae'n syml mewn gwirionedd.

Rydym ni'n sôn am helpu pobl i wella eu sefyllfa mewn modd sy'n ystyried sut maen nhw'n teimlo, a'r hyn y mae arnynt ei eisiau.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:**

- Adolygu'r farchnad gofal cartref a datblygu darpariaeth fewnol i gynyddu gallu gofal cartref.
- Adolygu prosiectau 'gofal maint cywir', datblygu ymhellach y rhai a brofir sy'n gwella deilliannau i bobl.
- Archwilio datblygiad modelau 'meicro-gomisiynu' i'w gwneud yn haws i bobl gael mynediad i ofal a chefnogaeth - yn arbennig mewn cymunedau gwledig.

**Dyma beth wnaethom ni:**

#### Cefnogi'r Farchnad Ofal

Rydym yn wynebu argyfwng gweithlu cenedlaethol, sy'n effeithio ar ein gallu i recriwtio a chadw staff ar draws gofal cymdeithasol gan gynnwys darpariaeth gofal preswyl a chartref. Rydym wedi cefnogi darparwyr i gael mynediad i £6.1miliwn o arian Caledi Llywodraeth Cymru a chynlluniau bonws gofal cymdeithasol i gefnogi heriau gweithlu ac adfer ar ôl Covid.

Rydym wedi bod yn cydweithio ar draws ein sefydliad a gyda phartneriaid BIPBC i dreialu dulliau newydd ar gyfer heriau'r gweithlu gyda phroses recriwtio ar y cyd newydd wedi'i beilota.

Mae twf wedi dechrau yn ein gwasanaeth darparwr mewnol drwy drosglwyddo asiant allanol i'n darpariaeth fewnol, ond mae twf pellach yn parhau'n araf wrth i ni barhau i wynebu prinder gweithlu.

Mae'r Tîm Comisiynu Rhanbarthol gan Gyngor Sir Ddinbych wedi cydlynu'r datblygiad a chyhoeddi Asesiad Anghenion Poblogaeth ac Adroddiad Datblygu'r Farchnad rhanbarthol. Gyda'i gilydd, mae'r adroddiadau hyn yn cyflwyno darlun cynhwysfawr o'r boblogaeth ac anghenion dinasyddion Gogledd Cymru a heriau'r farchnad sydd angen sylw er mwyn gallu eu darparu yn y blynyddoedd i ddod. Rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, gan sicrhau y cynrychiolir anghenion Wrecsam a byddwn yn defnyddio'r adroddiadau ar gyfer llywio cynlluniau datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.

### Esbonio'r jargon - 'Gofal cartref'

Darperir gofal cartref i bobl sy'n dymuno aros yn eu cartref eu hunain, yn hytrach na symud i gartref gofal preswyl. Mae gweithwyr gofal yn ymweld â'r unigolyn yn eu cartref, yn ddyddiol fel arfer.

### Gofal o'r Maint Cywir

Mae gofal o'r maint cywir yn golygu bod pobl yn gallu cael mynediad i'r lefel gywir o ofal i ateb eu hanghenion; dim mwy a dim llai.

Gyda datblygiadau o fewn technoleg ac offer dros y blynyddoedd, ynghyd â mynediad gwell i hyfforddiant i staff a dinasyddion, rydym wedi gallu cefnogi pobl i gael mynediad i lefelau gofal llawer llai ymwthiol sy'n canolbwyntio ar urddas, ailallu ac annibyniaeth.

Bu cryn lwyddiant yn y prosiectau gofal maint cywir, mae hyn wedi cefnogi gostyngiad yn yr angen am alwadau gofal cartref gyda dau ofalwr, sydd hefyd wedi cefnogi gallu yn y cartref. Mae mwy o waith wedi'i gynllunio o amgylch gofal o'r maint cywir a datblygu Canolfan Ragoriaeth. Bydd hyn yn canolbwyntio ar hyfforddiant achrededig yn cael ei ddarparu gan y tîm o therapyddion galwedigaethol i ofalwyr, ThG, nyrsys a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol heb lawer o gyfraniad gan yr unigolyn. Mae hwn yn ddull addysgol ar gyfer gofal o'r maint cywir i ddarparu atebion ymarferol.

Mae pecynnau gofal drwy holl elfennau gofal cymdeithasol wedi eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau bod gostyngiad mewn cefnogaeth yn cael ei wneud pan fydd pobl yn cael mwy o annibyniaeth gan sicrhau nad yw pobl yn derbyn gormod o gefnogaeth tra'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Micro Gomisiynu

Er mwyn ein cefnogi i ddatblygu mentrau neu fusnesau gofal cymdeithasol bach, rydym yn gweithio gyda Chatalyddion Cymunedol. Maent yn helpu pobl a chymunedau ar draws y sir i ddefnyddio eu talentau i ddechrau a chynnal mentrau a busnesau cymunedol bach sy'n cefnogi a gofalu am bobl leol eraill; mae'r bobl hyn yn cael eu galw yn gatalyddion cymunedol yn lleol, ond mae gan bob un enw busnes eu hunain hefyd.

Yn cael ei ariannu drwy Raglen Drawsnewid Cymunedol Llywodraeth Cymru, roedd Catalyddion Cymunedol yn nodi bylchau mewn gwasanaethau presennol ac wedi recriwtio pobl leol i ddatblygu mentrau bach i'w llenwi, yn helpu i ofalu a chefnogi dinasyddion yn Wrecsam, maent yn cynnwys gwasanaethau fel gofal cartref, gwasanaethau gofal a chefnogaeth gyda thasgau o amgylch y cartref a'r ardd.

Mae'r prosiect yn parhau i ddatblygu'n dda gyda 37 menter wedi cwblhau'r safonau 'ei wneud yn iawn.' Mae pob menter yn llawn o ran pecynnau gofal, gyda dinasyddion yn cael mynediad i daliadau uniongyrchol i ariannu gofal fel hyn. Gyda recriwtio ar gyfer gofal cartref yn profi'n heriol iawn, mae'r model gofal a chefnogaeth hwn yn gallu cynnig datrysiad gofal amgen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddinasyddion.

### Esbonio'r jargon - 'Micro gomisiynu'

Mae micro gomisiynu yn golygu chwilio am ofal ar lefel unigol gan sefydliadau bach annibynnol neu drydydd sector yn aml neu unig fasnachwr

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- Datblygu Taliadau Uniongyrchol a Micro gomisiynu ymhellach
- Darparu Cynllun Gweithredu lleol i fynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaeth fel yr adroddwyd yn adroddiad Datblygu'r Farchnad Ranbarthol.
- Defnyddio Cyfalaf Llywodraeth Cymru, datblygu cynllun ar gyfer darparu Gofal Canolradd yn y tymor canolig a hirdymor.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- Sicrhau bod System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) wedi'i ymgorffori yn gadarn ac yn cefnogi ein timau gofal cymdeithasol.
- Parhau i ymgysylltu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a datblygu ein cynllun gwella.
- Adolygu prosesau SPoA ar gyfer gwneud penderfyniadau a throsglwyddo achos i sicrhau eu bod yn parhau'n addas i'r diben.

### Dyma beth wnaethom ni:

### System TG Iechyd a Gofal Cymdeithasol (System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru)

Drwy gydol 2021/22, mae'r adran wedi parhau i fireinio ffurflenni a phrosesau yn y System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) er mwyn cefnogi timau gofal cymdeithasol i gofnodi'n effeithlon, yn amserol ac yn gyson. Er bod hyn wedi cynnwys ei heriau, mae gan yr adran adnoddau ar gyfer aelodaeth ar holl dimau cenedlaethol i sicrhau bod cyfathrebu rhwng yr awdurdod lleol a'r cyflenwr system ar waith. Mae Grŵp Defnyddiwr Systemau ar waith gyda chynrychiolwr enwebedig o bob tîm ar draws gwasanaethau plant ac oedolion i sicrhau bod materion yn cael eu codi ac yr ymatebir iddynt yn gyflym gyda holl newidiadau a datblygiadau a gytunwyd yn cael eu cynnwys yn Map Datblygu Systemau'r adran.

Rydym yn cyfrannu'n weithgar at holl grwpiau cenedlaethol ac mae Grwpiau Tasg a Gorffen a adroddir arnynt gan naill ai Advanced neu Dîm Cenedlaethol WCCIS. Mae holl ffurflenni sydd wedi eu cynnwys wedi eu hadolygu ar gyfer llais plant ac yn ffurfio rhan o waith siwrnai bywyd.

### Gwybodaeth Rheoli

I wneud pethau yn haws ar gyfer ein gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr, rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu bwrdd gwaith dros y we. Mae hyn yn rhoi mynediad i'n holl reolwyr a gweithwyr cymdeithasol i'w llwyth achosion ac asesiadau, sy'n eu helpu i reoli a blaenoriaethu eu llwyth gwaith dyddiol.

Mae ein gweithwyr cymdeithasol wedi dweud wrthym pa mor werthfawr yw mynediad i'r adroddiadau hyn, gyda ffocws yr adran ar sicrwydd ansawdd, maent yn atgoffa'n gyson am amserlenni arfer gorau ac yn ei gwneud yn hawdd i nodi os yw'r amserlenni yn llithro.

Drwy ganolbwynt yr adran ar Ymarfer, Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd (gweler isod), rydym yn sicrhau bod gan ein staff yr adnoddau maent eu hangen i ddarparu deilliannau gwell ar gyfer y mwyaf diamddiffyn.

## Bwrdd Gwelliannau Cyflym (BGC) - Ein Cynllun Gwella

Cafodd cynllun gweithredu y Bwrdd Gwelliannau Cyflym ei sefydlu yn 2019 ac mae wedi'i strwythuro o amgylch y chwech nod gwella ar gyfer y gwasanaeth, i fynd i'r afael â heriau a nodwyd:

- Model Darparu sefydliadol sy'n addas i bwrpas
- Parhau i ddatblygu gweithlu hynod fedrus a sefydlog.
- Gyda ac yn darparu prosesau a gweithdrefnau effeithiol.
- Darparu gwasanaethau ac ymarfer o ansawdd uchel.
- Gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid mewnol ac allanol.
- Sicrhau y gall plant a theuluoedd gymryd rhan mewn gwasanaethau a phenderfyniadau amdanynt.

Mae'r adran yn parhau i ymgysylltu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a datblygu ein cynllun gwella. Mae cynlluniau gweithredu a ddiweddarwyd a pherfformiad chwarterol yn cael ei rannu mewn cyfarfodydd ymgysylltu misol i sicrhau bod cyfathrebu yn parhau i fodoli.

## Perfformiad, Ymarfer a Sicrwydd Ansawdd

Ynghyd â'r cynllun gweithredu BGC, mae gennym y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd. Mae hyn yn amlinellu:

- Sut byddwn yn sicrhau ansawdd ein gwaith
- Sut byddwn yn archwilio'r ymateb a'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu
- Sut byddwn yn dysgu o beth rydym yn ei ddarganfod

Felly, mae gan wasanaethau plant nawr ffrwd gwaith Perfformiad, Ymarfer a Sicrwydd Ansawdd. Mae'r ffrwd gwaith hwn yn cynnwys cynllun archwilio 12 mis cadarn i ddewis ffeiliau achos a chynnal archwiliadau thema, archwilio ffeiliau achos yn rheolaidd yn erbyn yr adnoddau sgorio archwilio a sicrhau bod canfyddiadau o'r archwiliadau yn cael eu nodi i ddod i gasgliadau, nodi anghenion hyfforddiant, a hwyluso trafodaeth mewn gweithdai perfformiad adran chwarterol.

## Drws Ffrynt

Mae ein tîm Un Pwynt Mynediad plant, yn gweithredu fel "drws ffrynt" ar gyfer gwasanaethau plant. Mae'r broses gwneud penderfyniadau yn y tîm hwn yn effeithiol ac yn sicrhau bod penderfyniad yn cael ei wneud ar bob atgyfeiriad o fewn 24 awr o gael eu cyflwyno.

Gwneud penderfyniadau amserol ac o fewn Un Pwynt Mynediad yn parhau'n faes sy'n perfformio'n dda gyda chyfartaledd o 98% o benderfyniadau yn cael eu gwneud o fewn 24 awr dros y tair blynedd ddiwethaf.

Yn ogystal, cefnogwyd Un Pwynt Mynediad plant gan adolygiad a gynhaliwyd gan ymgynghorydd allanol gan adrodd ar ddeilliannau yn chwarter 2 o 2022/23.

### Esbonio'r jargon - 'Trafodaeth strategaeth'

Diben trafodaeth strategaeth yw penderfynu pa un a yw'r trothwy wedi'i fodloni ar gyfer ymchwiliad amddiffyn plant un neu asiantaeth ar y cyd (Gofal Cymdeithasol a'r Heddlu) a threfnu'r ymchwiliad hwnnw. Maent yn digwydd pan gredir bod plentyn wedi dioddef, neu'n debyg o ddioddef niwed difrifol.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- lansio Polisi Trothwy Gwasanaethau Plant Wrecsam yn ffurfiol i holl bartneriaid a sefydliadau allanol.
- Parhau i ymgysylltu ag AGC a gwneud cynnydd gyda'n cynllun gwella, gan sicrhau bod cynlluniau ar waith i gynnal lefel y newid a gyflawnwyd.
- Cytuno a mabwysiadu dull rhanbarthol ar gyfer yr adnoddau sgrinio a chynlluniau diogelwch a ddefnyddir ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll, camfanteisio arnynt yn rhywiol ac sy'n cael eu masnachu.

## Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol

Mae hyn yn golygu cynorthwyo pobl i ofalu am eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- Drwy'r Gronfa Gofal Integredig, datblygu Canolbwynt Lles Wrecsam ar gyfer dinasyddion Wrecsam.
- Datblygu gweithio mewn ardaloedd integredig
- Lansio'r prosiect pennu cyfeiriad yn Ardal y De (Wrecsam) yn ffurfiol i wella profiad dinasyddion a datblygu gweithio'n integredig ymhellach.
- Datblygu'r Gronfa Datblygu Cymunedol i allu datblygu atebion cefnogaeth a gofal arloesol ymhellach i bobl a theuluoedd sy'n byw gyda Dementia.
- Gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i gydgynhyrchu prosiectau sy'n trawsnewid rhai o'n gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.
- Sicrhau bod perthnasoedd gwaith cadarnhaol yn cael eu datblygu rhwng gofal cymdeithasol i oedolion a'r 'ganolfan les' yn Wrecsam.

#### Dyma beth wnaethom ni:

#### Iechyd a lles cymunedol - Canolfan Les Wrecsam

Er gwaethaf yr heriau a wynebwyd o ganlyniad i'r pandemig, roedd y gwaith a wnaed i greu'r Ganolfan Les newydd yng nghanol y dref wedi'i gwblhau ar amser ac o fewn cyllideb eleni. Ynghyd â'r gwaith cyfalaf, mae Grŵp Llywio partneriaeth BIPBC, AVOW a CBSW wedi cydweithio gyda dinasyddion a grwpiau cymunedol i recriwtio'r Tîm Canolfan Les a dechrau dylunio pa weithgaredd fydd y lleoliad yn ei gynnal. Mae'n anelu i allu cynnig ystod o wybodaeth atal a lles, cyngor a chymorth i ddinasyddion o bob oed:

"Mae'r ganolfan les newydd yn le cyfeillgar gyda llawer o ardaloedd croesawgar. Bydd yn lle gwych i ni ei ddefnyddio."

"Mae'r fynedfa yn hawdd i'w defnyddio ac mae'r cyfan ar un lefel. Bydd yn hawdd i bobl ddefnyddio cadeiriau olwyn i gael mynediad. Yn cynnwys yr holl doiledau a'r gegin. Wedi'i gynllunio'n dda. Mae'n bwysig iawn ein bod i gyd yn cael mynediad."

“Rwy’n hoffi’r ardaloedd y tu allan, yr ardal chwarae a’r planhigion. Roeddwn eisiau mynd i blannu pethau! Mae’r ystafelloedd cyfarfod a’r mannau mwy yn edrych yn wych. Ni allaf aros i’w defnyddio nhw! Rydym yn barod!!”

(Aelodau o’r Grŵp Gwasanaethau Safon Wrecsam dan arweiniad dinasyddion ar ymweliad â’r Ganolfan)

## Gweithio Mewn Ardaloedd

Rydym wedi parhau i ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol trawsnewidiol yn unol â ‘Cymru iachach’ yn defnyddio Cronfa Trawsnewid Cymuned Llywodraeth Cymru.

Mae gweithio’n integredig yn datblygu’n dda gyda datblygiad llwyddiannus tri Thîm Amlddisgyblaethol ardal a chyfarfodydd Achos Cymhleth wythnosol yn Ne, Canol a Gogledd, Gogledd Orllewin Wrecsam. Mae gan bob ardal gydlynydd gofal ac mae cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid yn tyfu. Mae’r cyfarfodydd achos cymhleth yn rhedeg yn llwyddiannus ac yn caniatau cefnogaeth amlbroffesiynol i adolygu anghenion pobl ag anghenion cymhleth a datblygu dulliau a chynlluniau i gefnogi dinasyddion i dderbyn y gefnogaeth gywir yn y ffordd gywir i leihau eu risg o gael eu derbyn yn yr ysbyty neu leihau’r galw ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cefnogi pobl sy’n byw gyda dementia drwy Gronfa Datblygu Cymunedol

Cefnogi darparu Cynllun Gweithredu Dementia Cymru gan Lywodraeth Cymru (2018 - 2022), mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn derbyn arian grant blynyddol drwy Raglen Gronfa Gofal Integredig. Mae hyn ar gyfer datblygu darpariaeth gwasanaeth sy’n cefnogi pobl sy’n byw gyda dementia a gofalwyr di-dâl. Drwy ddefnyddio rhan o’r cyllid hwn, roeddem wedi creu’r Gronfa Datblygu Cymunedol i dreialu ffyrdd newydd o gefnogi pobl sy’n byw gyda dementia.

Mae dinasyddion sy’n byw gyda dementia a’u gofalwyr di-dâl wedi cael amser anodd iawn yn ystod y pandemig gan fod mynediad i gefnogaeth wyneb yn wyneb wedi lleihau. O ganlyniad, rydym wedi addasu’r ffordd yr ydym yn defnyddio arian Cynllun Gweithredu Dementia i allu datblygu gwasanaeth arloesol yn y maes hwn. Cafodd Tâl Uniongyrchol Seibiant i Ofalwyr Di-dâl ei sefydlu gyda NEWCIS i alluogi gofalwyr di-dâl i ddod o hyd i’w hatebion seibiant sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn eu hunain. Yn ogystal, mae sefydlu Fforwm Dementia Wrecsam gyda sylwadau gan bobl â phrofiad byw gyda Dementia wedi a bydd yn parhau i sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu yn cael eu cydgynhyrchu a’u llywio gan brofiad byw.

Prosiect rydym wedi gallu ei symud ymlaen eleni drwy’r Gronfa Datblygu Cymunedol oedd prynu dyfeisiau Gweithgaredd Therapi Rhyngweithiol Hel Atgofion (RITA). Roeddem wedi gweithio gyda’n partneriaid, y Gymdeithas Alzheimer a’r Rhwydwaith Gwella i ddeall a chwmpasu’r prosiect, ei ddatblygu i ateb anghenion dinasyddion Wrecsam yn seiliedig ar beth oedd pobl â phrofiad wedi dweud oedd o bwys iddyn nhw.

## Beth yw RITA?

Mae RITA yn dod mewn amryw o feintiau e.e. monitor 24", tabled 10" neu ddyfais cludadwy 13" ac mae'n anelu i gynyddu'r gofal a ddarperir i bobl hŷn, y sawl sy'n byw gyda Dementia, Alzheimer, anaf i'r ymennydd ac anabledd dysgu fel modd o'u cefnogi a lleihau eu haflonyddwch, ynysiad, iselder a/neu ddileriwm.

Mae RITA yn ddatrysiad cyffwrdd sgrîn cyfan sy'n darparu therapi hel atgofion digidol, sy'n adnodd newydd ym maes nyrsio a gofal iechyd; mae'n cynnwys y defnydd o sgriniau rhyngweithiol hawdd ei ddefnyddio a llechen i gyfuno adloniant gyda therapi a chynorthwyo pobl (yn arbennig gyda nam ar y cof) i gofio a rhannu digwyddiadau o'u gorffennol drwy weithgaredd fel gwrando ar gerddoriaeth, gwylio adroddiadau newyddion o ddigwyddiadau hanesyddol arwyddocaol, chwarae gemau, carioci a gwylio ffilmiau.

Er mai prif ddiben RITA yw gwella ansawdd bywyd a lles, mae hefyd yn cefnogi:

- gofalwyr di-dâl ac aelodau o'r teulu i gyfathrebu yn fwy effeithiol gydag anwyliaid
- gostyngiad mewn cwympiadau
- gostyngiad mewn pecynnau gofal drud a dwys iawn
- mapio gofal dementia a lleihau meddyginiaeth cysgu a gwrth-seicotig
- gwella profiad cleifion, teulu a staff.

## Astudiaeth achos - Rheolwr yng Nghartref Preswyl Pen-y-Garth

"Mae'r RITA wedi bod ar waith ym Mhen-y-Garth ers tro bellach, mae'n amlwg i weld fod pawb yn mwynhau yn ystod gweithgareddau un i un ynghyd â gweithgareddau grŵp. Mae'n galonogol gweld y rhai nad ydynt yn arfer gwneud hynny yn cyfrannu at weithgareddau a gydag eraill. Mae RITA yn rhoi gwên ar wyneb pawb ac rydym yn aml yn clywed llawer o chwerthin a hwyl yn dod o'r ardaloedd cymunedol yn y cartref pan mae'n cael ei ddefnyddio.

"Mae gweithwyr proffesiynol a theuluoedd sy'n ymweld wedi dweud am breswylwyr yn effro ac yn ymgysylltu sydd wedi gwella eu hymweliadau personol a'r ymateb maent yn ei dderbyn gan eu hanwyliaid yn ystod yr ymweliad.

"Ers i'r RITA fod ar waith, rydym wedi gweld gwelliant mawr yn y dadansoddiad data cwympiadau; mae preswylwyr bellach yn gwbl brysur, yn cael eu hysgogi ac wedi setlo yn ystod y dydd sydd wedi gostwng faint o breswylwyr sy'n 'crwydro gyda phwrpas.' Rydym wedi gallu newid yr asesiadau risg cwympiadau personol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.

"Adolygwyd meddyginiaeth gwrth-seicotig preswylwyr ac rydym yn falch iawn mai ychydig iawn o'r feddyginiaeth hon a ddefnyddir yn y cartref erbyn hyn gydag ychydig iawn o bobl ar bresgripsiwn meddyginiaeth gwrth-seicotig o unrhyw fath.

“Mae’r RITA wedi’i ddefnyddio’n llwyddiannus i leihau pryderon ac aflonyddwch sydd wedi arwain at dawelu problemau posibl yn yr amgylchedd a rhoi’r wybodaeth a’r hyder i staff ddefnyddio RITA ar gyfer preswylwyr sy’n ei chael hi’n anodd cyflwyno oherwydd eu diagnosis iechyd meddwl.

“Mae’n braf hefyd gweld y preswylwyr hynny yn defnyddio RITA sy’n methu cael mynediad i’r ardal gymunedol oherwydd symudedd a salwch, i’w gweld yn mwynhau’r apiau ymlacio a cherddoriaeth a chymryd rhan mewn gweithgaredd synhwyraidd gan roi teimlad o bwrpas a chyflawniad.

“Yn gyffredinol, byddem yn argymell y RITA i unrhyw leoliad iechyd a gofal cymdeithasol yn y wlad; mae hwn yn ddarn gwych o offer sy’n addas i bawb rydym yn eu cefnogi oherwydd y proffiliau a’r amrywiaeth eang o apiau sydd ar gael. Mae’r RITA wedi gwella ansawdd bywyd, iechyd meddwl a lles, yn arbennig yn ystod y pandemig ble nad yw preswylwyr wedi gallu gweld eu hanwyliaid ers cymaint o amser, o bosibl yn eu rhoi mewn perygl o ddirywiad mewn iechyd meddwl a lles.”

### Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu

Eleni rydym wedi sefydlu ein Tîm Lles Cymunedol newydd, fydd yn helpu i bontio’r bwlch rhwng gwasanaethau iechyd meddwl ar sail clinigol a’r gymuned. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio tuag at wneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch i ddinasyddion. Rydym wedi ymgysylltu ac yn parhau i ymgysylltu gyda dinasyddion a darparwyr gwasanaeth am beth sydd allan yno’n barod, ble mae yna heriau neu fylchau a sut rydym yn gweithio gyda’n gilydd orau i ddatblygu atebion sy’n gweithio a darparu deilliannau gwirioneddol i bobl. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn defnyddio recriwtio yn seiliedig ar werth gyda llysgenhadon iechyd meddwl a chynrychiolwyr gofal/teulu di-dâl yn ffurfio rhan o’r paneli recriwtio.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- lansio a pharhau i ddatblygu cyd-gynhyrchiad o Ganolbwynt Lles Wrecsam mewn partneriaeth gyda BIPBC ac AVOW i ddarparu gweithgaredd atal a lles iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned (ar draws pob oed).
- darparu prosiectau cefnogaeth a gofal integredig a gydgynhyrchwyd yn defnyddio Cronfa Buddsoddi Refeniw newydd gan Lywodraeth Cymru sy’n darparu deilliannau cadarnhaol i ddinasyddion.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- yn unol â'r strategaeth recriwtio ddiwygiedig, parhau i gynyddu'r nifer o ofalwyr maeth mewnol.
- darparu ein Strategaeth Rhianta Corfforaethol ehangach.

### Dyma beth wnaethom ni:

### Gofalwyr Maeth a Recriwtio

Rydym wedi sicrhau bod recriwtio gofalwyr maeth wedi bod yn brif ffocws y gwasanaeth maethu. Rydym wedi defnyddio dulliau gweithgaredd recriwtio fel hysbysebu ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag ymgyrchoedd marchnata lleol yn hysbysebu gydag AFC Wrecsam, hysbysfyrddau digidol, hysbysebu ar fysiau ac ar bileri drwy ganol Wrecsam.

Drwy ein hymdrechion cynyddol i recriwtio, gwnaethom dderbyn 47 o ymholiadau: o'r rhain mae pedwar wedi symud ymlaen ac wedi eu sgrinio'n llwyddiannus a symud ymlaen i'r cam asesu. Yn ogystal â hyn, yn 2021/22, rydym wedi cymeradwyo pedwar o ofalwyr maeth newydd.

Ein prif nod yw recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol i fodloni anghenion parhaus plant a phobl ifanc yn Wrecsam. Mae hyn yn cynnwys cynyddu'r nifer o ofalwyr maeth i blant yn eu harddegau yn ogystal â gofalwyr maeth mam a'i phlentyn.

Mae gwasanaeth maethu Wrecsam yn adolygu eu cyfraddau o ran faint maent yn talu gofalwyr maeth ar hyn o bryd a chynnig mwy o dâl ar gyfer gofalwyr profiadol a/neu medrus sy'n gallu gofalu am ein plant a phobl ifanc mwy cymhleth.

### Ymadawr Gofal

Diben gwasanaethau gadael gofal yw cynorthwyo pobl ifanc sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol i symud o dderbyn gofal i fyw yn annibynnol. Mae'r cyngor a chefnogaeth y mae'r rhai sy'n gadael gofal yn ei dderbyn yn dibynnu ar eu hoedran a'u statws wrth adael gofal.

Mae'r tîm plant sy'n derbyn gofal a'r tîm gadael gofal bob amser wedi eu rheoli fel un tîm. Yn y flwyddyn ddiwethaf, roeddent wedi eu rhannu allan. Mae'r newid pwysig hwn yn golygu bod gan y tîm gadael gofal reolwr profiadol materion gadael gofal ac sy'n gallu sicrhau bod elfennau newydd o gefnogaeth yn cael eu datblygu a'u cynnig.

## Strategaeth Rhianta Corfforaethol

Yn ystod 2021/22 gwnaethom ddechrau'r broses o adolygu ein strategaeth rhianta corfforaethol drwy ddechrau cynnal sgwrs ar draws y sir a gyda phartneriaid ehangach. Rydym yn ei alw yn 'dipyn i'w ofyn'. Os ydym wirioneddol yn credu bod plant yn haeddu cael eu trin fel ein plant ein hunain, mae'n rhaid i ni herio ein hunain i wneud mwy, meddwl yn ehangach a bod yn fwy integredig o ran ein dull.

Er mwyn dangos ein hymrwymiad i'r strategaeth hon, rydym yn gyrru ymlaen gyda Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar i gefnogi twf a datblygiad plant a'u hangen am gartref parhaol. I gyfoethogi bywydau plant mewn gofal ymhellach, rydym yn bwriadu cynyddu ein gwaith gyda'r gymuned a gwasanaethau hamdden i hwyluso rhaglenni mentora, gweithgareddau cymunedol ac ehangu gorwelion plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol.

Rydym yn cydnabod y niwed mae rhai plant wedi'i ddioddef ac mewn ymateb rydym yn bwriadu gweithredu Model Ymarfer wedi'i Lywio gan Drawma, cryfhau ein gwaith gyda CAMHS ar adolygu'r llwybr hunanofal, parhau i weithio ar ein Protocol Ar Goll o'r Cartref, a mabwysiadu model Cyfiawnder Adferol ar draws plant sy'n derbyn gofal.

I gynorthwyo ein pobl ifanc sy'n agosáu at annibyniaeth, rydym yn bwriadu parhau â'r gwaith ar y Prosiect Dechrau, gweithredu cynllunio risg ac asesu ar gyfer unrhyw un sy'n gadael gofal neu sydd ddim mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant, a gweithio i ddatblygu prentisiaethau, gan sicrhau bod gan ein pobl ifanc sbardun ar gyfer eu dyfodol.

Yn bwysicach na dim, rydym yn gwerthfawrogi lleisiau ein pobl ifanc. I gefnogi hyn, mae ailddatblygu ein Cyngor Plant Ifanc mewn Gofal a chynlluniau i weithredu strategaeth cyfranogiad plant yn llawn. Rydym yn sylweddoli fod popeth rydym yn ei wneud yn seiliedig ar yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddweud wrthym ac rydym yn parhau i weithio i sicrhau fod ganddynt y modd a'r gefnogaeth i wneud hynny.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- ymgorffori a lansio'r Tîm Gwarcheidiaeth Arbennig a'r cynnig yn llawn
- datblygu a lansio polisi gwaith ac ymarfer Siwrnai Bywyd
- datblygu gwefan Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal

## Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae hyn yn golygu helpu i ddiogelu pobl a allai fod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu ffurfiau eraill o niwed neu gamfanteisio.

Drwy gydol y pandemig, ein blaenoriaeth oedd, ac mae'n parhau i fod, sef diogelu pobl a theuluoedd a defnyddio holl adnoddau sydd ar gael i ni. Roedd hyn yn cynnwys addasu i ganllawiau a chyfyngiadau sy'n newid yn gyflym, cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau a galluogi mynediad i leoliadau brys ymatebol i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r tîm diogelu oedolion a'r timau sicrwydd ansawdd a diogelu plant wedi gorfod parhau i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym. Mae'r dull wedi bod yn arloesol ac yn hyblyg drwy ddefnyddio cyfarfodydd ar-lein, bod yn greadigol gyda'r ffordd yr ydym yn cynnal a hwyluso cyswllt, tra'n parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch ein dinasyddion a staff.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- datblygu sgiliau i gydgynhyrchu gwasanaethau gyda phobl ag anghenion cyfathrebu cymhleth
- datblygu cylch archwilio gan sicrhau themâu allweddol o asesiadau seiliedig ar ased, gofal sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a chefnogi cynllunio, gallu ac eiriolaeth yn cael eu rhoi ar waith.
- rheoli pontio effeithiol a diogel o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid.

#### Dyma beth wnaethom ni:

#### Gwella Sut Rydym yn Cyfathrebu - Anghenion Cyfathrebu Cymhleth ac Eiriolaeth

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd y gallwn wella sut rydym yn cyfathrebu gyda phobl. Rydym yn gwybod fod cael pobl sy'n defnyddio gwasanaethau i gyfrannu at eu datblygu yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Eleni rydym wedi bod yn edrych ar ein gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau i bobl fyddar, dall a byddar a dall a sut gallwn eu gwella fel y gallwn gyfathrebu'n well, cydgynhyrchu ac eirioli i bobl gyda nam ar y golwg a'r clyw. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid a gomisiynwyd, Rhwydwaith Cefnogi'r Byddar a Chefnogi Golwg i wella ac ehangu ein cynigion gwasanaeth yn y maes hwn a byddwn yn adolygu'r gwelliannau hynny yn ystod y flwyddyn i ddod.

O fewn timau gweithredol yr adran, rydym hefyd wedi bod yn cyflwyno hyfforddiant fesul cam i ymestyn cwmpas cyfathrebu gyda dinasyddion. Mae nifer o staff wedi ymgymryd â Hyfforddiant Hwyluso Graffeg i allu creu cynrychiolaeth weledol o wybodaeth ac mae nifer cynyddol o staff nawr yn gallu cyfathrebu drwy Makaton. Rydym hefyd yn gallu creu platfform cynllunio digidol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i alluogi cymaint o bobl â phosibl i gymryd rôl ganolog i ddylunio eu gofal a chefnogaeth, ac maent yng nghamau cynnar creu gwefan hygyrch amlieithog "dyma Wrecsam".

Yn ogystal, rydym wedi bod yn edrych ar ein gwasanaethau eiriolaeth. Mae eiriolaeth yn gallu bod mewn sawl ffurf, er enghraifft eiriolaeth cyfoedion, eiriolaeth sy'n cefnogi pobl heb allu meddyliol i wneud rhai penderfyniadau, neu wasanaethau eiriolaeth sy'n cefnogi pobl mewn sefyllfaoedd diamddiffyn i wneud penderfyniadau bywyd. Rydym wedi bod yn mapio'r gwasanaethau sydd gennym ac i bwy maent ar gael, i helpu i lywio ble mae gennym fylchau ac eisiau datblygu yn y dyfodol. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu o'n canfyddiadau i'n helpu i fynd i'r afael â'r bylchau hyn.

### Esbonio'r jargon – 'Eiriolaeth'

'Eiriolaeth' yw pan mae gan unigolyn rywun arall (e.e. eiriolydd) i helpu i ofalu am eu buddion. Mae'r eiriolydd fel arfer yn weithiwr proffesiynol, perthynas, ffrind neu ddefnyddiwr gwasanaeth arall a byddant yn aml yn mynd gyda'r unigolyn i gyfarfodydd gyda darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

### Trefniadau Diogelu Rhyddid (LPS)

Bydd y Trefniadau Diogelu Rhyddid yn diogelu pobl 16 oed a hŷn sydd, neu sydd angen eu hamddifadu o'u rhyddid (mewn geiriau eraill, cyfyngu ar rywfaint o'u rhyddid) er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth a sydd heb allu meddyliol i gydsynio. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, rhoi ymyl ar wely i atal rhywun rhag disgyn allan neu roi cloeon ar ddrysau i atal rhywun rhag rhedeg allan i ffordd brysur.

Mae gwaith ar y gweill i gyflawni hyn. Mae'r ddogfen ymgynghorol LPS yn cynnwys Cod Ymarfer wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Ganolog ac rydym wedi ei rhannu gyda'n cydweithwyr a phartneriaid i gael eu barn. Rydym yn gweithio gyda'n Tîm Datblygu Gweithlu i archwilio mynediad i'r hyfforddiant angenrheidiol fydd staff ei angen. Mae gweithgor yn cael ei sefydlu i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer yr LPS a bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i sicrhau y diogelir hawliau pawb sy'n bodloni gofynion LPS.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- cwblhau ein hadolygiadau o wasanaethau cefnogaeth i'r byddar, nam ar y golwg ac eiriolaeth a darparu cynllun gweithredu o welliannau gwasanaeth.
- darparu rhaglen hyfforddiant, datblygu a chyfathrebu gyda staff, partneriaid a dinasyddion i gefnogi rhoi'r LPS ar waith.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- gwella presenoldeb pobl ifanc mewn cynadleddau amddiffyn plant
- datblygu a gweithredu ein Cynllun Amddiffyn Plant
- sicrhau bod ein model risg wedi'i ymgorffori ym mhopeth rydym yn ei wneud
- cynyddu cyfraniad yr atgyfeiriwr ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â chyfarfodydd strategaeth a thrafodaethau.

### Dyma beth wnaethom ni:

### Cynadleddau Amddiffyn Plant

Drwy gydol 2021/22, mae'r tîm diogelu a sicrwydd ansawdd wedi gwella'r broses ar gyfer gwahoddiadau i blant 10 oed a drosodd mewn unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plant. Mae gwahoddiadau unigol yn cael eu hanfon at bobl ifanc yn eu hysbysu am ddyddiad ac amser y Gynhadledd Amddiffyn Plant a'u gwahodd i fynychu.

Yn ogystal, mae'r Adran wedi cyflwyno'r Apiau Meddwl Fy Hun, sy'n gwahodd plant a phobl ifanc i fynegi eu barn mewn fformat electronig, os na fyddant yn dymuno bod yn bresennol yn y cyfarfod. Mae'r Apiau Meddwl Fy Hun yn cael eu hybu gan weithwyr cymdeithasol a swyddogion amddiffyn ac adolygu annibynnol ar draws yr adran.

Mae Grŵp Llywio Meddwl Fy Hun wedi'i roi ar waith i fonitro defnydd o'r apiau ac adborth gan bobl ifanc.

### Cynllun Amddiffyn Plant

Mae'r Cynllun Diogelu Plant Amlasiantaeth wedi'i ddefnyddio yn llawn drwy 2021/22, ynghyd â Phroses Datrys Anghydfod a ddefnyddir gan dîm diogelu a sicrwydd ansawdd yr adran i godi rhybuddion gynted ag y sylwir ar duedd neu oedi mewn cynllunio gofal. Mae hyn yn dangos yr ôl-troed sicrwydd ansawdd ar draws holl gynlluniau gofal a chefnogaeth i'n plant a theuluoedd mwyaf diamddiffyn.

Ein cam gwella nesaf yw cynnal adolygiad llawn o'r cynllun hwn yn 2022/23 i alinio gyda model risg wedi'i lywio gan drawma yr adran ac arfer da wedi'i nodi o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019).Bydd marchnata yn parhau drwy ddigwyddiadau lleol a'r cyfryngau cymdeithasol.

### Ar Goll, Camfanteisio a Masnachu (MET) - Model Risg

Mae Gwasanaethau Plant wedi cynnal adolygiad trwyadl a chynhwysfawr o'n model risg presennol gydag aelodau'r Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd gan gynnal gwerthusiad llawn drwy 2021/22.

Cafodd gwerthusiadau eu cwblhau a bydd yr Adran yn mabwysiadu Model Risg Wedi'i Lywio gan Drawma yn 2022/23.

Ymgysylltu ag ymgynghorydd allanol i adolygu holl ddogfennau/canllawiau cysylltiedig â risg yn unol â'r model risg newydd a chefnogi prosiect i ymgorffori mewn ymarfer drwy gydol 2022/23.

### Cyfarfodydd Strategaeth

Mae'r adran wedi bod yn gweithio i wella cyfraniad partneriaid ac atgyfeirwyr aml asiantaeth mewn cyfarfodydd strategaeth. Er bod perfformiad yn erbyn y targed hwn wedi gwella ychydig yn 2021/22, cyflwyno presenoldeb Heddlu Gogledd Cymru mewn Un Pwynt Mynediad i Blant yn cefnogi'r model rydym yn anelu ato a bydd yn galluogi mwy o gydweithio, rhannu gwybodaeth a phresenoldeb asiantaethau eraill mewn cyfarfodydd strategaeth gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu wrth symud ymlaen.

Er bod perfformiad wedi gwella yn gyffredinol, nid yw gwelliannau o fis i fis wedi bod yn gyson.

Mae prosiect Un Pwynt Mynediad/Heddlu Gogledd Cymru ar fin cael ei gwblhau a bydd yna fewnbwn uniongyrchol gan y Ditectif Ringyll ac Ymchwilydd yr Heddlu o fis Gorffennaf 2022.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- ymgorffori'r protocol MET yn llwyr i gynnwys cynllun trawsnewid o 16 oed i fod yn oedolyn ble mae yna risgiau o gamfanteisio a masnachu.
- comisiynu ac ymgorffori'r model risg cytûn.
- datblygu llwybr hunanladdiad i sicrhau bod cymunedau yn cael eu cefnogi yn dilyn hunanladdiad plentyn.
- gwerthuso apiau Meddwl Fy Hun yn y dyfodol i glywed llais y plentyn/person ifanc yn y broses amddiffyn plant.
- symud i blatfform ar-lein ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant
- Gwella a monitro Cynnig Gweithredol Eiriolaeth

## Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'r safon hwn yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan yn eu cymdeithas – eu helpu i ddysgu, rhyngweithio â phobl eraill a bod yn rhan o'u cymunedau.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- parhau i ddatblygu'r cynnig rhannu bywydau fel dull mwy hyblyg a phersonol i wasanaethau gofal mwy traddodiadol.
- gwerthuso'r prosiectau Asiantau Cymunedol a dylunio llwybr clir rhwng presgripsiynu cymdeithasol ac asiantau cymunedol.
- cyd-gynhyrchu Strategaeth Rhwng Cenedlaethau i gefnogi deilliannau gwell i bobl
- cydgynhyrchu partneriaeth is-ranbarthol gyda'r trydydd sector i ddarparu Mannau Diogel
- paratoi ar gyfer gweithredu Cod Ymarfer Awtistiaeth
- cydgynhyrchu datblygiad pellach canolbwynt cyfeillgarwch yn y gymuned

#### Dyma beth wnaethom ni:

Mae wedi bod yn flwyddyn hynod heriol arall, yn ceisio adfer o effeithiau arwahanrwydd cymdeithasol a mwy drwy gydol y pandemig. Cafodd rhai o'n blaenoriaethau eu gohirio, symud yn arafach neu newid cyfeiriad wrth i ni ganolbwyntio cefnogaeth ar wasanaethau rheng flaen ar gyfer adfer.

#### Rhannu Bywydau

Mae Rhannu Bywydau yn gynllun sy'n paru pobl gyda dementia a materion iechyd eraill gyda gofalwyr sydd â diddordebau a hobïau tebyg - fel y gallant barhau i fwynhau bywyd llawn a gwerth chweil. Gall fod yn unrhyw beth ....o arddio i bysgota i fynd i wylio pêl-droed. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion maith, nid oedd ein darparwr yn gallu denu gofalwyr i'n model darparu ac roeddem yn cytuno i ddod â'n trefniadau cytundebol i ben ar gyfer darparu gwasanaethau Rhannu Dyddiau eleni. Y newyddion da oedd, yn dilyn llwyddiant mewn mannau eraill gyda'n contract Catalydd Cymunedol, roedd staff a dinasyddion yn gallu trosglwyddo cefnogaeth yn ddi-dor i'n gwasanaeth micro fenter cynyddol.

## Asiantau Cymunedol

Mae Asiantau Cymunedol yn chwarae rôl allweddol i'n helpu i gefnogi datblygiad 'cymunedau cryf a gwydn'. Maent yn helpu pobl hŷn i ddod o hyd i ddatrysiadau lleol i fodloni eu hanghenion - yn hytrach na gorfod dod drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae yna 24 yn gweithredu ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Gwasanaeth Asiant Cymunedol yn parhau i ddarparu cefnogaeth ar lawr gwlad oedd wirioneddol ei hangen i bobl drwy gydol y pandemig eleni; gan weithio'n agos gydag AVOW i gael mynediad i'r gronfa gwirfoddolwyr a gyda darparwyr eraill a gwasanaethau trydydd sector, roedd y Gwasanaeth Asiant Cymunedol yn gallu ymateb yn sydyn i'r galw lleol drwy gydol yr amser.

Yr hyn rydym wedi ei chael yn anodd i'w wneud yw cefnogi Cynghorau Cymuned (sy'n rheoli'r Gwasanaeth Asiant Cymunedol i ni) i allu darparu'r gwasanaeth ym mhob rhan o'r fwrdeistref. Felly, mae rhai ardaloedd yn cynnwys Gwasanaethau Asiantau Cymunedol llawn adnoddau ac eraill ddim. Rydym nawr yng nghyfnod adfer y pandemig, byddwn unwaith eto yn canolbwyntio ar adolygu rhywfaint o'r anghysondeb hwn i lywio cynllun ar gyfer Gwasanaeth Asiantau Cymunedol gwell i'r fwrdeistref i gyd.

## Gwaith Pontio'r Cenedlaethau

Rydym wedi gallu dathlu llawer o waith pontio'r cenedlaethau yn y gorffennol yn Adroddiadau'r Cyfarwyddwr, fel cysylltu meithrinfeydd ac ysgolion gyda chartrefi gofal drwy gydlynwyr gweithgaredd a deilliannau lles cadarnhaol y math hwn o weithgaredd i bawb sydd wedi cyfrannu. Eleni, gwnaethom ddechrau ar y gwaith i lunio Strategaeth Pontio'r Cenedlaethau ar gyfer Wrecsam, fydd yn helpu i ymgorffori'r dulliau hyn yn ein cynlluniau datblygu gwasanaeth. Drwy ddysgu o bolisi cenedlaethol a rhanbarthol, rydym wedi drafftio egwyddorion allweddol y byddwn nawr yn ceisio safbwynt pobl arnynt wrth i ni gydgynhyrchu strategaeth derfynol, i arwain ein gwaith comisiynu.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Heneiddio'n Dda, Llywodraeth Cymru ac rydym yn defnyddio cyllid Heneiddio'n Dda, Llywodraeth Cymru i recriwtio swyddog Heneiddio'n Dda fydd yn gweithio gyda dinasyddion a phartneriaid i fwrw ymlaen gyda pholisi Llywodraeth Cymru a pholisi lleol, sy'n cefnogi heneiddio'n gadarnhaol. I gydfynd â'r swydd rydym yn anelu i lansio Grant Heneiddio'n Dda i alluogi grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd sector eraill i gael mynediad i gyllid ar gyfer gweithgaredd, sy'n cefnogi egwyddorion heneiddio'n dda.

## Un Weledigaeth

Mewn unrhyw ymdrech gyfunol mae pwrpas clir yn allweddol. Mae defnyddio'r cyfleoedd ac ymateb i heriau cymdeithas sy'n heneiddio angen i bawb fynd i'r un cyfeiriad. Y cyfeiriad a fwriedir yw:

- ein gweledigaeth yw Cymru sy'n gyfeillgar i oed sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw ac heneiddio'n dda

- rydym yn dymuno creu Cymru ble mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio
- rydym yn dymuno creu Cymru lle mae unigolion yn gallu cymryd cyfrifoldeb am ei hiechyd a lles eu hunain tra'n teimlo'n hyderus y bydd cefnogaeth ar gael ac y bydd yn hawdd cael gafael arno os bydd angen
- rydym yn dymuno creu Cymru ble nad yw heneiddio yn cyfyngu'r potensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau mae pobl hŷn yn eu derbyn.
- yn bennaf, rydym eisiau bod yn genedl sydd yn dathlu oedran, ac yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Unigolion Hŷn, cenedl sydd yn cefnogi annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunan wireddiad ac urddas pobl hŷn bob amser.

Mae'r weledigaeth genedlaethol hon ar gyfer Cymru cyfeillgar i oed yn cynnwys y mannau ble mae pobl yn gweithio, eu hawliau, eu perthnasoedd o fewn eu teuluoedd a chymunedau lleol a gyda llywodraethau. Mae hefyd yn cynnwys y perthnasoedd sydd gennym ar draws cenedlaethau ac yn anelu i herio a newid y ffordd rydym yn meddwl am heneiddio.

(Llywodraeth Cymru - Oed Gyfeillgar - Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio)

### Lleoedd Diogel

Mae'r cynllun Lleoedd Diogel yn darparu sicrwydd i bobl sy'n teimlo'n ddiamddiffyn os ydynt yn mynd allan, gan eu cynorthwyo i fyw bywydau mwy annibynnol, yn gwybod bod yna fannau diogel yn eu cymuned yn cynnig cymorth os oes angen. Mae siopau, busnesau a sefydliadau lleol yn cofrestru i fod yn 'Le Diogel.' Bydd sticer yn cael ei osod ar ffenestr neu ddrws Lle Diogel, sy'n nodi bod cymorth ar gael yno.

Mae ein gwasanaeth Lleoedd Diogel lleol yn parhau i dyfu gyda niferoedd cynyddol o fannau diogel yn cael eu creu. Rydym yn parhau i weithio'n rhanbarthol i sefydlu sut y gall dinasyddion Wrecsam gael budd o gynllun Mannau Diogel rhanbarthol.

### Cyfeillgar i Awtistiaeth

Gyda gweithrediad Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru, cynhaliwyd gwerthusiad dewisiadau i sefydlu cyfrifoldebau blaenoriaeth ar awdurdodau lleol. Roedd grŵp Partneriaeth Strategol Awtistiaeth Wrecsam (WASP) eisoes ar waith a chafodd Cynllun Gweithredu Awtistiaeth ei lunio, yn seiliedig ar bedwar thema blaenoriaeth awtistiaeth Llywodraeth Cymru. Er mwyn hybu Ymwybyddiaeth Awtistiaeth a'i dderbyn ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam, cafodd swydd newydd Cydlynydd Canolbwyntio ar yr Unigolyn ei chreu yn canolbwyntio ar awtistiaeth. Mae'r swydd hon wedi bod yn allweddol i fwrw ymlaen â'r rhaglen Awtistiaeth ac mae wedi cynnwys datblygu Mannau Diogel, y Cynllun Waled Oren a mwy o ryngweithio gyda busnesau ac allfeydd manwerthu i hybu ymwybyddiaeth a newid i ddeall anghenion pobl ag awtistiaeth.

Rydym hefyd wedi gweithredu cytundeb lefel gwasanaeth gydag elusen awtistiaeth lleol i sicrhau y ceisir cyd-gynhyrchu i nodi a chyflawni newid i ddarparu a gweithredu gwasanaethau.

Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym yn gweithio gyda datblygu'r gweithlu i roi hyfforddiant Ymwybyddiaeth Awtistiaeth ar waith ar draws y sefydliad gyda'r bwriad i gyflawni statws Cyngor Wrecsam fel 'Sefydliad Ymwybodol o Awtistiaeth'.

> "Mae Your Space wedi'i gomisiynu gan Gyngor Wrecsam i sefydlu gweithgor o bobl yn byw gyda phrofiad o awtistiaeth, i weithio ar y cyd gyda grŵp Partneriaeth Rhanddeiliaid Awtistiaeth Wrecsam (WASP) i sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn bresennol wrth ddarparu a datblygu gwasanaethau ar draws Wrecsam. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i helpu i roi Cod Ymarfer Awtistiaeth Cymru ar waith ar draws Wrecsam, a datblygu Cynllun Gweithredu Cod Ymarfer lleol, gan ei fod wedi galluogi'r grŵp i roi profiad o'r meysydd blaenoriaeth, yr oeddent yn credu oedd angen ei ddatrys i alluogi pobl ag awtistiaeth i deimlo bod eu llais yn cael ei glywed. Er bod yna dipyn o waith, o ganlyniad i waith cyd-gynhyrchu gyda'r grŵp WASP, mae'r grŵp llywio yn teimlo fod cyfathrebu gyda'r gwasanaethau iechyd ac addysg yn Wrecsam yn gwella, sy'n brif feysydd pryder sy'n cael eu codi gan rieni a theuluoedd yn ein cyfarfodydd. Mae gallu sicrhau bod lleisiau a phrofiadau'r sawl yr effeithir arnynt gan awtistiaeth yn cael eu clywed a gweithredu arnynt yn hanfodol ac rydym yn parhau i weithio'n galed i ddatblygu hyn."

(Rachel Hancocks, Pennaeth Gwasanaeth, Your Space)

### Canolbwynt Cyfeillgarwch

Yn ystod Covid, parhaodd y Canolbwynt Cymunedol i ddatblygu ei ddarpariaeth ar-lein, gan gynnig gweithgareddau cynhwysol i unrhyw un oedd angen cymorth. Gan gydweithio gyda Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam (SWS), rydym wedi datblygu nifer o weithgareddau ar-lein sy'n darparu cefnogaeth, cyfeillgarwch, gwybodaeth a chyngor.

Mae'r Canolbwynt yn gweithio gyda Gwobr Ffilm Iris. Mae'r ffilm yn mynd i'r afael â hunaniaeth a geiriau rydym yn eu defnyddio i adnabod ein hunain a bydd yn cael ei chwblhau yn yr haf 2022. Bydd y ffilm yn cael ei chydgynhyrchu gydag aelodau SWS, aelodau Canolbwynt Cyfeillgarwch ac asedau cymunedol lleol, gan gynnwys Melyn a Glas.

Gan ddefnyddio Cyllid Trawsnewid Llywodraeth Cymru, rydym wedi creu ffilm i recordio ein Datganiad o Annibyniaeth a gydgynhyrchwyd, sy'n ddatganiad a gydgynhyrchwyd o hawliau a disgwyliadau pobl anabl ac anableddau dysgu wrth gael mynediad i wasanaethau.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- lansio ein Strategaeth Rhwng Cenedlaethau ynghyd â'n swyddog Heneiddio'n Dda a Chronfa Grant i gefnogi Wrecsam Cyfeillgar i Oed
- parhau i weithio tuag at Cyngor Wrecsam yn dod yn awdurdod lleol cyfeillgar i awtistiaeth.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- adolygu'r model IFSS i sicrhau bod y gwasanaeth presennol yn addas i'r diben.

### Dyma beth wnaethom ni:

### Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Integredig (IFSS)

Bydd yr adolygiad o'r model IFSS yn adolygiad a gydlynir gan fod IFSS yn wasanaeth a rennir gyda Chyngor Sir y Fflint. Er bod cynlluniau adolygu yn 2021/22, mae blaenoriaethau adran eraill wedi symud yr adolygiad hwn i 2022/23.

Bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal yn 2022/23.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- cyfrannu at ddatblygu Canolfan Les Wrecsam
- cyfrannu at a chyflwyno'r Strategaeth Atal ac Ymyrraeth Fuan
- datblygiad llawn y tîm cyn-geni
- datblygiad llawn y prosiect NEET i gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).
- adolygu IFSS, ei swyddogaethau a deilliannau i gefnogi niferoedd mwy o deuluoedd yn well.

## Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae'r safon hon yn helpu pobl i gyflawni perthnasoedd iach yn y cartref a gyda'r bobl y maen nhw'n agos atyn nhw.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- monitro sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cartrefi gofal, yn seiliedig ar yr hyn mae pobl yn ei ystyried yn 'dda.'
- comisiynu datrysiadau seibiant brys i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr

#### Dyma beth wnaethom ni:

Rydym i gyd wedi bod yn dysgu byw gydag effeithiau'r pandemig eleni, llawer ohonynt yn bell gyrhaeddol ac yn para'n hir iawn. Rydym yn gwybod y gall arwahanrwydd cymdeithasol fod yn andwyol i iechyd a lles pobl ac er bod platfformau ar-lein wedi cynnig rhywfaint o seibiant o hyn, roedd defnyddio technoleg yn rhwystr i lawer. Eleni, rydym wedi bod yn gweithio gyda'n darparwyr gwasanaeth i adfer o'r pandemig a dychwelyd i 'normal newydd' ble gall pobl ddechrau teimlo'n ddiogel wrth ymgysylltu wyneb yn wyneb eto.

#### Cartrefi Gofal

Roeddem yn parhau gyda'n cyfarfodydd Cylch Ansawdd drwy gydol y pandemig, oedd yn cynnwys dull aml bartner i adolygu ansawdd gofal ar draws y farchnad. Yn naturiol drwy gydol y pandemig, roedd y rhain yn canolbwyntio ar sut oedd cartrefi yn ymdopi drwy gyfnod hynod heriol a sicrhau mynediad i gefnogaeth hanfodol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dychwelyd yn raddol i drefn mwy normal, gwerthuso ansawdd ar draws y sector mewn byd ar ôl y pandemig.

Roedd ymweliadau monitro safonol i gartrefi gofal wedi eu hatal ym mis Mawrth 2020 wrth iddynt gynnal cyfnodau clo lleol i warchod eu preswylwyr diamddiffyn. Mae'r rhain bellach wedi ailddechrau o dan drefniadau monitro gofalus i alluogi proses rhyngweithiol, cefnogol, adolygu gwasanaeth sy'n cynnwys dinasyddion a theuluoedd Bydd adroddiadau ac argymhellion nawr hefyd yn cynnwys sut mae cartrefi yn adfer yn dilyn y pandemig a sut y gallwn gefnogi'r farchnad i sefydlogi.

### Cefnogi Gofalwyr Di-Dâl

Mae ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl wedi amlygu nifer o heriau sylweddol, sydd wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig. Rydym wedi bod yn gweithio gyda gofalwyr di-dâl a sefydliadau yn eu cefnogi i asesu rhai o'r bylchau a llunio cynllun gweithredu i wneud gwelliannau sylweddol. Er mwyn gyrru ymlaen â'r rhaglen hon, rydym wedi sicrhau Cyllid Buddsoddiad Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru i gyflogi swyddog arweiniol gofalwyr di-dâl, a ddatblygir gennym yn 2022/23.

Wrth ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r heriau, roeddem hefyd wedi defnyddio grant gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddatblygu gwasanaeth seibiant ac ar ôl cysylltu â gofalwyr di-dâl am yr hyn sydd ei angen, gwnaethom lansio Gwasanaeth Tâl Uniongyrchol Gofalwyr Di-dal. Cafodd tri deg un o daliadau uniongyrchol eu gwneud y llynedd gyda'r gwasanaeth yn parhau i 2022/23 drwy ein darparwr a gomisiynwyd, Newcis. Mae derbyn taliad uniongyrchol i ariannu datrysiadau seibiant yn galluogi gofalwyr di-dâl i brynu datrysiadau seibiant sy'n ateb eu hanghenion nhw a'u hanwyliaid yn hyblyg.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- cyflogi swyddog arweiniol gofalwyr di-dâl i gydgynhyrchu atebion i fylchau mewn gwasanaethau a adroddir i ni a'n partneriaid, i gynnwys cynyddu'r ystod o ddewisiadau seibiant.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- adolygu'r Tîm PASS i sicrhau bod y model gwasanaeth presennol yn addas i'r diben
- ymgorffori'r model gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol
- parhau i ddatblygu ymyrraeth fuan a gwasanaethau ataliol yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

### Dyma beth wnaethom ni:

### Adolygiad Tîm PASS

Mae'r adolygiad o'r Tîm PASS wedi dechrau gydag ymarfer cwmpasu cychwynnol o gyfrifoldeb a diben y tîm. Er y dylai'r adolygiad llawn fod wedi'i gynnal yn 2021/22, mae blaenoriaethau eraill yr adran wedi symud yr adolygiad hwn i 2022/23.

Mae'r rheolwr tîm yn cynnal ymarfer ar hyn o bryd ar gyfrifoldeb y tîm a diben dros gynnwys yn yr adolygiad.

Y bwriad yw cynnal adolygiad llawn yn 2022/23.

### Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru

Cytunwyd ar holl drefniadau ymarferol ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Mae Grŵp Llywio Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi'i sefydlu, cytunwyd ar Gylch Gorchwyl gyda chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru, cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd ac mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru ar waith. Yn 2022/23 bydd adrannau cyfreithiol angen adolygu a chytuno ar y geiriau sydd eu hangen i gadarnhau trefniadau contract. Mae hwn gyda'r gwasanaethau cyfreithiol yn chwech awdurdod lleol Gogledd Cymru ar hyn o bryd.

### Gwasanaethau Ataliol

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r adran wedi gwneud cynnydd cyson i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth fuan. Ym mis Tachwedd 2021, cafodd dogfen Fframwaith Cymorth Buan ac Atal ei chyhoeddi, yn dilyn lansiad aml asiantaeth ar y ddogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

Mae'r ddogfen Fframwaith Ataliad a Chymorth Buan yn cynorthwyo pawb wrth gynllunio Gwasanaethau Atal ac Ymyrraeth Fuan. Mae'n cefnogi wrth ystyried pwy fydd angen cyfrannu, beth yw'r egwyddorion fydd yn cymell trafodaethau a phenderfyniadau, a galluogi unigolion i ddatblygu achos busnes clir i ddatblygu, ehangu neu ailbwrpasu gwasanaethau presennol.

Ers datblygu'r Fframwaith Atal a Chymorth Buan, mae Partneriaeth Atal a Chymorth Buan newydd wedi'i sefydlu ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth fydd yn helpu i ganolbwyntio ar y cyngor a'i bartneriaid i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i blant, pobl ifanc a theuluoedd cyn i bethau waethygu. Mae'n anelu i help plant, pobl ifanc a theuluoedd i helpu eu hunain yn y lle cyntaf, ond pan fydd angen mwy o gymorth, rydym yn anelu i ddarparu'r gefnogaeth gywir yn llawer cynt.

Bydd datblygiad pellach Partneriaeth Atal a Chymorth Buan yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

**Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:**

- parhau â gwelliannau yn y drws ffrynt gan gynnwys gweithiwr uned diogelwch cam-drin domestig yn rhan o'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad.
- parhau i gefnogi perthnasoedd domestig iach gan ychwanegu gweithiwr iechyd meddwl a swyddog tai yn yr Un Pwynt Mynediad

## Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Mae hyn yn golygu helpu pobl i wella eu hincwm. Yn ogystal â'u helpu i elwa o fywyd cymdeithasol a lle addas i fyw.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- gweithredu camau pellach y dydd ac adolygu cyfleoedd gwaith a chydgynhyrchu datrysiadau newydd ac amgen i alluogi pobl i gyflawni mwy o les economaidd a phersonol.
- ehangu'r defnydd o dechnolegau cynorthwyol i alluogi pobl i fyw yn annibynnol
- datblygu ein model o ddatrysiadau gofal a chefnogaeth yn y gymuned i bobl gyda chyflyrau iechyd meddwl

#### Dyma beth wnaethom ni:

#### Gwasanaethau Dydd a Chyfleoedd Gwaith

Roeddem yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru i gwblhau dau ddigwyddiad cydgynhyrchu i ganfod ffyrdd newydd i helpu unigolion a theuluoedd gydag anghenion cymedrol i isel.

Mae gennym lawer o waith yn parhau i gwblhau'r gwaith hwn ar ôl gohirio'r prosiect wrth i'r pandemig effeithio ar wasanaethau. Eleni, rydym yn bwriadu cydgynhyrchu cynllun gweithredu i ddarparu gwasanaeth wedi'i foderneiddio sy'n bodloni anghenion dinasyddion Wrecsam.

#### Technoleg Gynorthwyol

Eleni, rydym wedi parhau i ddarparu Gwasanaeth Teleofal llwyddiannus drwy ein darparwr gwasanaeth drwy gontract, sydd wedi profi'n amhrisiadwy gan fod nifer yn gwarchod eu hunain drwy'r pandemig. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n darparwr a phartneriaid yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gwmpasu effeithiau posibl Newid Digidol yn 2025, pan fydd holl linellau ffôn yn ddigidol. Bydd ein rheolwr rhaglen iechyd a gofal cymdeithasol newydd nawr yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer sut i leddfu rhai o'r risgiau cysylltiedig â newid digidol, gan gynnwys sicrhau bod ein technolegau cynorthwyol a gomisiynwyd yn gydnaws â systemau ffôn newydd. Bydd ein darparwr a gomisiynwyd a ni yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'n defnyddwyr technoleg gynorthwyol a theleofal drwy gydol y broses hon i helpu pobl gael eu hysbysu am y newidiadau a sut yr effeithir arnynt.

## Byw â Chymorth Iechyd Meddwl

Mae'r tîm lles cymunedol wedi gwahanu o'r tîm iechyd meddwl cymunedol o dan arweiniad iechyd nawr wedi eu lleoli gyda gofal cymdeithasol, yn cynnal perthynas waith agos gyda chydweithwyr tîm iechyd meddwl cymunedol. Mae hyn yn galluogi gweithwyr cymdeithasol iechyd meddwl a staff cefnogi i weithio o fewn cymunedau ac ochr yn ochr â sefydliadau iechyd meddwl trydydd sector a'r gymuned. Bydd hyn yn cefnogi dull trydydd sector a gofal cymdeithasol ar y cyd i gefnogi dinasyddion gydag anghenion iechyd meddwl a'u gofalwyr di-dâl, gan wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i bobl ag ystod eang o anghenion iechyd meddwl nad ydynt o bosibl yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau a arweinir gan iechyd.

Eleni, rydym hefyd wedi lansio cynllun byw â chymorth newydd gyda gofal a chefnogaeth 24 awr; mae datblygiad pellach gyda model mwy hyblyg o gefnogaeth i fodloni ystod o anghenion iechyd meddwl hefyd yn cael ei ddatblygu.

## Gofal yn Agosach at Adref

Drwy ddefnyddio Arian Cyfalaf Gofal Integredig Llywodraeth Cymru, eleni roeddem yn gallu lansio ein Rhaglen Gofal Agosach at Adref, fydd yn parhau'n flaenoriaeth yn y pedair blynedd nesaf. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar brynu, ailbwrpasu a/neu ailddatblygu eiddo naill ai gan Gyngor Wrecsam neu mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddarparu cynlluniau byw â chymorth a chartrefi plant bach yn Wrecsam, gan alluogi pobl i ddychwelyd i'r fwrdeistref i fodloni eu hanghenion tai a/neu ofal ac atal yr angen i gomisiynu lleoliadau y tu allan i'r sir yn y dyfodol. Eleni, gwnaethom sicrhau tri eiddo ac mae mwy yn cael eu cynllunio o dan y cynlluniau grant cyfalaf newydd ac wedi eu ehangu gan Lywodraeth Cymru.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- ymchwil i barhau i fodelau amgen o ddarparu ar gyfer cyfleoedd gwaith a gwasanaeth dydd i allu ehangu gwasanaethau sydd ar gael.
- darparu Rhaglen Gofal Agosach at Adref ehangach.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud:

- datblygu'r prosiect 'Kick-Start' yn cynnig cefnogaeth ddwys a therapiwtig i bobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd mewn perygl o leoliad yn methu a bod yn ddigartref.
- sicrhau bod fframwaith 4C yn cael ei ymgorffori mewn ymarfer ac yn arwain at leoliadau gwell, cost effeithiol.
- darparu'r cynnig gadael gofal.

### Dyma beth wnaethom ni:

### Y Prosiect Kickstart

Cafodd y Prosiect Kickstart (darparu hyd at 14 lleoliad i blant a phobl ifanc 16+ ag anghenion cymhleth) ei ohirio oherwydd pandemig Covid-19 a materion adeiladu. Mae'r grŵp llywio Kickstart wedi parhau i gyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, i fwrw ymlaen â chynnydd a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith at pan fydd y gwasanaeth yn weithredol.

Mae'r prosiect yn cael ei gefnogi gan Grŵp Llywio Kickstart a chynllun gweithredu prosiect, sy'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i sicrhau bod amserlenni prosiect, risgiau a materion yn cael eu trafod a'u huwchgyfeirio yn ddigonol ac yn briodol.

Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau yn yr Hydref 2022 ac ar ôl ei gwblhau, bydd yn darparu ychwanegiad gwerthfawr i'r lleoliadau mae gwasanaethau plant yn gallu eu cynnig i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc.

### Sefydlogrwydd Lleoliad

Gwnaed cynnydd i weithredu'r Fframwaith 4C ac mae swyddog lleoliad wedi'i benodi i reoli cronfa ddata'r fframwaith o fewn Wrecsam. Mae'r defnydd a disgwyliadau'r Fframwaith 4C yn parhau i gael ei ymgorffori o fewn ymarfer fel tystiolaeth o arfer da. Rydym wedi profi mwy o alw am leoliadau sy'n gallu ateb anghenion pobl ifanc hynod gymhleth, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y nifer a chost lleoliadau o'r fath. Er mwyn darparu'r rhaglen nid er elw, bydd angen buddsoddiad pellach i ddatblygu gofal preswyl awdurdod lleol.

Er nad oes unrhyw arbedion costau wedi eu gwireddu, nodir bod cynnydd da yn cael ei wneud yn Wrecsam gan ein bod yn arbed arian fesul lleoliad drwy'r fframwaith; fodd bynnag mae ein nifer o leoliadau a chost cyffredinol wedi codi, na ddylai dynnu oddi ar y ffordd mae'r fframwaith 4C wedi newid ein ffordd o weithio.

## Ymadäwr Gofal

Mae ein Cynnig Ymadawyr Gofal wedi'i ddatblygu drwy'r flwyddyn ac rydym yn y broses o ddatblygu ein llwybr llety ar gyfer pobl ifanc, fydd yn darparu graddau amrywiol o gefnogaeth ar eu llwybr i annibyniaeth a'u tenantiaeth eu hunain.

Rydym yn gobeithio cyflawni hyn drwy barhau i ddatblygu ein Gwasanaeth Llety â Chymorth mewnol, Prosiect Kick Start, Prosiect Camu i Lawr, Pan Rwy'n Barod a defnyddio ein Fflat Hyfforddiant.

Mae'r tîm gadael gofal yn gweld mwy sy'n gadael gofal yn manteisio ar y polisi 'ailgysylltu â gofal' gyda llwybrau yn ôl i addysg neu gyflogaeth hyd at 25 oed. Ble nad yw rhai sy'n gadael gofal yn dymuno manteisio ar hyn, rhoddir manylion sut i 'ailgysylltu' i bawb sy'n gadael gofal i'w cyfweliad gadael.

Mae gwasanaethau plant yn parhau i gynnig mynediad i dâl hyd at £500 o'r Gronfa Diwrnod Dewi Sant gan efelychu 'banc mam a dad' yn ogystal â mynediad i'r 'grant cartref cyntaf' hyd at £2000. Yn 2021/22 roedd y tîm gadael gofal wedi adleoli'n llwyddiannus i'r 'Siop Wybodaeth' o gael eu lleoli o fewn Adeiladau'r Goron, gan alluogi pobl ifanc i gael cyswllt mwy hygyrch â'u gweithwyr cymdeithasol a chynorthwywyr personol, tra'n gallu manteisio ar 'siop un alwad' ar gyfer meysydd cefnogaeth a nodwyd.

Yn 2022/23 rydym yn bwriadu parhau gyda datblygiad ein Cynnig i'r Sawl sy'n Gadael Gofal gan gynnig ILM Lefel 2 mewn Arweinyddiaeth i 10 o bobl ifanc sydd wedi cael profiad gofal 18+ drwy'r Prosiect Ymchwil Fuse yn dechrau ym mis Mehefin a'r Peilot Incwm Sylfaenol, fydd yn cael ei lansio yn yr haf

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2022-23:

- cwblhau'r Prosiect Kickstart
- cynyddu ein darpariaeth seibiant
- cefnogi a chynorthwyo datblygiad Gorsaf Achub Glowyr ar gyfer y sawl sy'n Gadael Gofal

# 5. Sut Ydym yn Darparu ar Gyfer Ein Dinasyddion

## A. Datblygu Ein Gweithlu

Mae ein tîm datblygu'r gweithlu'n dal i ddarparu amrywiaeth helaeth o gyfleoedd hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol. Mae cais rhanbarthol am grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2022/23 wedi'i gyflwyno. Mae dyraniad grant Wrecsam (sy'n cynnwys 30% o arian cyfatebol) yr un fath â'r llynedd £441,696.

Mae hyfforddiant a chymwysterau ar gael i'r bartneriaeth datblygu gweithlu gofal cymdeithasol, gyda'r aelodaeth a swyddogaeth wedi eu manylu yn ein cynllun cyfathrebu.

Mewn ymateb i COVID, rydym wedi cynnig cyfleoedd dysgu ar-lein i gefnogi'r gweithlu, gan gynnwys Community Care Inform (CCI), eDdysgu, arwyddbostio i adnoddau sydd ar gael gan Ofal Cymdeithasol Cymru a gweithdai yn cael eu darparu drwy Zoom/Microsoft Teams.

Mae mwy o wybodaeth am flaenoriaethau hyfforddiant a chymwysterau rhanbarthol a lleol, ymarfer effeithiol sy'n codi a mentrau hyfforddi ar gael ar ein gwefan:

www.wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu

## B. Cyllid a Chynllunio ar Gyfer y Dyfodol

Ers y flwyddyn ariannol 2018/19, cyflawnodd gofal cymdeithasol i oedolion £4.2miliwn o arbedion a chyflawnodd gofal cymdeithasol plant £225k o arbedion.

Yn 2020/21 roedd £2.5miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r gyllideb gofal cymdeithasol, £1.5miliwn i blant ar gyfer gwelliant cyflym yr adran ynghyd â £1miliwn i oedolion i ariannu demograffeg. Yn 2021/22 roedd £3.5miliwn pellach wedi'i ddyrannu ar gyfer gwasanaethau plant i ddelio gyda'r cynnydd sylweddol mewn darpariaeth arbenigol. Mae'r gost ychwanegol hon wedi'i lleddfu gydag arian ychwanegol yn 2021/22 drwy Gronfa Adfer Llywodraeth Cymru a £6.1miliwn o Gyllid Caledi. Fodd bynnag, bydd y pwysau sylfaenol hwn yn parhau i'r tymor canolig ac mae'n cael ei adlewyrchu fel ymrwymiad yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 i 2024/25 gyda £6miliwn ychwanegol wedi'i fuddsoddi yn 2022/23 i ateb y galw am ofal cymdeithasol a phwysau'r gweithlu gydag ymrwymiad pellach o £2.5miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ogystal, mae swm wedi'i ymrwymo yn 2022/23 i ateb y costau ychwanegol o gyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol i weithwyr gofal fel y nodwyd gan y dirprwy weinidog gwasanaethau cymdeithasol.

## C. Arweinyddiaeth, Llywodraethu ac Atebolrwydd Gwleidyddol

Ar lefel wleidyddol, cefnogir y cyngor gan grŵp o gynghorwyr ar y bwrdd gweithredol - sy'n cael eu galw'n aelodau arweiniol - sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

Maen nhw'n cael eu cefnogi gan bwyllgorau craffu. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod o dan y Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles.

Ar lefel reoli, mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol (prif swyddog) yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr y cyngor, a chefnogir gan dîm rheoli adrannol.

Mae Cynghorwyr ac uwch reolwyr â'r cyfrifoldebau arweiniol hyn yn deall pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol, ac mae polisi'r cyngor yn datgan y byddwn ni'n blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ddiamddiffyn wrth bennu cyllidebau, gwneud arbedion a newid sut rydym ni'n gwneud pethau.

Mae'r Bwrdd Gwelliannau Cyflym yn cynnwys y ddau aelod arweiniol gofal cymdeithasol, y prif weithredwr ac uwch swyddogion ar draws y cyngor sy'n gallu cefnogi'r gwaith gwella, gan gynnwys gofal cymdeithasol plant, cyfreithiol, adnoddau dynol a chyllid. Mae'r Bwrdd Gwelliannau Cyflym yn cyfarfod bob dau fis i adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Bwrdd Gwelliannau Cyflym gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu i'r arweinydd, dirprwy arweinydd a'r aelod arweiniol ac adrodd ar ddiwedd cyfnod i holl aelodau. Mae Grŵp Tasg a Gorffen Craffu hefyd wedi'i sefydlu i gyflwyno her bellach ar gyfer y daith ar gyfer gwella. Mae'r uwch arweinyddiaeth a ddarperir yn wleidyddol a gan swyddogion yn hanfodol fel sail i'r newidiadau cadarnhaol a gyflawnir.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Wrecsam o ganlyniad i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ei nod yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – mewn modd cynaliadwy na fydd yn niweidio cenedlaethau'r dyfodol.

Er mwyn cynorthwyo i wneud hyn mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wahanol fyrddau sy'n gweithio ar wahanol elfennau.

Mae blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel a ganlyn:

- bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- bod pawb yn cael cyfle i ddysgu a datblygu drwy gydol eu hoes

## Trefniadau Diogelu

Mae gan bawb yr hawl i fyw yn ddiogel, yn rhydd o gamdriniaeth ac esgeulustod. Mae diogelu yn ymwneud â phobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i atal a rhoi diwedd ar, y risg a phrofiad o gamdriniaeth neu esgeulustod ac ar yr un pryd, sicrhau bod lles plant ac oedolion diamddiffyn yn cael ei hybu, gan gynnwys cymryd i ystyriaeth eu barn, dymuniadau, teimladau a chred wrth benderfynu ar weithredu.

Mae diogelu yn parhau ar flaen popeth rydym yn ei wneud; boed hynny yn ymateb i atgyfeiriadau, cynnal asesiadau, trefnu a darparu gwasanaethau neu'n gweithio gyda'r amrywiaeth eang o bartneriaid amlasiantaeth; mae ein gwaith yn seiliedig ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl a'n Polisi Trothwy Gwasanaethau Plant newydd a gyhoeddwyd, Fframwaith Atal a Chymorth Buan a'n Protocol Niwed Teuluol Ychwanegol 2022.

Drwy weithio i'r canllawiau hyn, mae gan ein timau yr adnoddau a'r wybodaeth i ddarparu ymateb a gweithredu ar unrhyw bryderon diogelu .

Mewn partneriaeth gyda'n tîm datblygu gweithlu, mae hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu drwy'r flwyddyn ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth diogelwch sylfaenol, gwaith amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth a phynciau unigol a dargedwyd ble mae tueddiadau neu batrymau yn codi'n lleol neu'n genedlaethol.

Mae diogelu yn cael ei ymgorffori yng ngwaith ein timau i gyd o ddydd i ddydd, o wasanaethau ataliol, fel Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd (TAC), sydd â chyfrifoldeb cydlynu gwasanaethau cefnogi i blant a phobl ifanc rhwng 0-25 oed a'u teuluoedd sydd ag anghenion ychwanegol a Gwasanaethau Atal a Chefnogi (PASS) sy'n cynnal ymweliadau dan oruchwyliaeth i blant a'u teuluoedd, cynnal Cynadleddau Grŵp Teulu a chynnal cyfrifoldeb cyfweliadau dychwelyd gartref i'r plant a adroddir ar goll o'u cartref neu ofal.

Mae Un Pwynt Mynediad (SPoA) Plant yn "ddrws ffrynt" i unrhyw aelod o'r cyhoedd neu weithwyr proffesiynol sydd â phryderon am les plant neu bobl ifanc ac mae ein tîm asesu ac ymyrraeth yn cynnal cyfarfodydd strategaeth amlasiantaeth gyda phartneriaid amlasiantaeth fel Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd, Addysg a'r Gwasanaeth Prawf i wneud penderfyniadau ar y camau nesaf ble mae pryderon wedi eu huwchgyfeirio i amddiffyn plant a chwblhau asesiadau cynhwysfawr ar blant a phobl ifanc i nodi cryfderau a meysydd ar gyfer gwella i helpu teuluoedd aros gyda'i gilydd, ble bo'n bosibl.

Mae tîm asesu cyn-geni'r adran yn gweithio gyda mamau beichiog a'r gwasanaeth bydwreigiaeth diogelu ble mae yna bryderon am fabanod heb eu geni gyda chyd nod i ddarparu cymorth a chefnogaeth fuan i helpu teuluoedd aros gyda'i gilydd. Mae'r tîm cefnogi teulu yn darparu gwasanaethau amddiffyn plant statudol a gwasanaethau cefnogi i'r plant hynny, pobl ifanc a theuluoedd sydd (yn dilyn asesiad) angen gwasanaethau i helpu i hybu lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol.

Mae'r tîm hefyd yn darparu gwasanaethau i blant sy'n derbyn llety (derbyn gofal) gan yr awdurdod lleol yn dilyn gweithdrefnau yn y llys teulu. I'r plant a'r pobl hynny ble na fu'n bosibl iddynt barhau i fyw gyda'u teulu, mae'r tîm plant sy'n derbyn gofal a'r tîm gadael gofal yn gweithio gyda phob person ifanc, eu teulu a gofalwyr i'w hannog i gyrraedd eu llawn botensial, parhau mewn lleoliadau sy'n ateb eu hanghenion a diogelu a hybu lles y person ifanc.

Mae'n tîm diogelu a sicrwydd ansawdd yn dod â sawl rôl ynghyd i sicrhau fod gan yr adran drefniadau cadarn ar gyfer gorolwg, sicrwydd ansawdd a herio holl brosesau statudol a'r cynlluniau gofal a chefnogaeth ar waith i blant a phobl ifanc i dderbyn gwasanaethau amddiffyn plant neu blant sy'n derbyn gofal.

Mae dysgu a datblygu yn allweddol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r tîm sicrwydd ansawdd a diogelu yn ganolog i greu amgylchedd dysgu ar draws gwasanaethau plant drwy nodi patrymau a thueddiadau ar waith. Cefnogir y tîm gan y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd, sy'n sicrhau bod rhaglen archwilio misol ar waith ac yn rhoi cyfle rheolaidd i ni fesur ymarfer a safonau darpariaeth gwasanaeth, gan ein galluogi i ddiogelu'r mwyaf diamddiffyn, hunanwerthuso, herio a gwella.

# 6. Rhagor o wybodaeth

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

### Strwythur y Cyngor

wrecsam.gov.uk/council

### Cynllun y Cyngor

wrecsam.gov.uk/service/strwythur-cyfundrefnole

Cynllun cyffredinol sy'n diffinio ble mae'r cyngor yn canolbwyntio ei egni.

wrecsam.gov.uk/service/cynllun-y-cyngor-2020-2023

### Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam

bgcwrecsam.org

### Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

Mae'n helpu i sicrhau fod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

bwrdddiogelugogleddcymru.cymru

### Eich Llais Wrecsam

Gwefan ymgynghori'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus – a ddefnyddir gan y cyngor ar gyfer arolygon ar-lein.

yourvoicewrexham.net

### Cwynion a Chanmoliaeth i'r Cyngor

wrecsam.gov.uk/service/cysylltu/canmoliaeth-chwynions

### Dewis Cymru

dewis.cymru

### Arolygiaeth Gofal Cymru

Archwilio gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ac adrodd am eu heffeithiolrwydd.

arolygiaethgofal.cymru

Adroddiadau Cyngor Wrecsam:

- Llythyr Adolygu Perfformiad Blynyddol Awdurdodau Lleol 2018-19
- Adroddiad ar Arolygiad Seiliedig ar Risg o Wasanaethau Plant ac Arolygiad Gwerthuso Perfformiad o Wasanaethau Oedolion Hydref 2020
- Arolygiad o Wasanaethau Oedolion Hŷn 2019
- Adroddiad Arolygiad Gwerthuso Perfformiad: Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Mehefin 2022
- Cyfeiriadur gwasanaethau Gofaly

### Adroddiadau a Dogfennau'r Cyngor

wrecsam.gov.uk

Adroddiadau a Dogfennau'r Cyngor

- Cynllun Cyfathrebu Datblygu'r Gweithlu (lawrlwytho PDF)
- Cynllun hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu, pamffledyn ac adroddiad canol blwyddyn

  wrecsam.gov.uk/service/datblygur-gweithlu
- Safonau'r Gymraeg

  wrecsam.gov.uk/service/canmoliaeth-chwynion/safonaur-gymraeg
- Trafnidiaeth

  wrecsam.gov.uk/service/dolenni/dolenni-cludiant

# Atodiad 1: Fframwaith Mesur Perfformiad

## Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant

### Metrig Perfformiad: AD/002

- Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor a chymorth.
- Canlyniad 2021-22: 5,946

### Metrig Perfformiad: CA/002

- AD/002 - Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gymorth.
- Canlyniad 2021-22: 842

### Metrig Perfformiad: CSC/014

- Canran o yr asesiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol.
- Canlyniad 2021-22: 74.71%

## Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol

### Metrig Perfformiad: AD/032

- Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac.
- Canlyniad 2021-22: 36

### Metrig Perfformiad: AD/033

- Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol a darparwyd.
- Canlyniad 2021-22: 24

### Metrig Perfformiad: CSC/0010a

- Canran o asesiadau a gwblhawyd ble roedd yna dystiolaeth o'r Cynnig Gweithredol o'r Gymraeg.
- Canlyniad 2021-22: 99.72%

### Metrig Perfformiad: CSC/034

- Canran o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen.
- Canlyniad 2021-22: 68.27%

## Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

### Metrig Perfformiad: CSC/033

- Canran o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen.
- Canlyniad 2021-22: 54.70%

### Metrig Perfformiad: AD/023

- Cyfanswm adroddiadau o amheuaeth o oedolyn mewn perygl ble mae angen gwneud ymholiadau.
- Canlyniad 2021-22: 931

### Metrig Perfformiad: ASD/024

- Cyfanswm nifer o ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad am y gamdriniaeth honedig.
- Canlyniad 2021-22: 881

## Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

### Metrig Perfformiad: CSC/033

- Sawl sy’n Gadael Gofal (Categorïau 1, 2 a 4) canran o sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal.
- Canlyniad 2021-22: 66.67%

### Metrig Perfformiad: AD/010

- Canran o becynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn wnaeth leihau, cynnal neu leddfu’r angen am gefnogaeth.
- Canlyniad 2021-22: 100%

## Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

### Metrig Perfformiad: CSC/038

- Canran o blant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad.
- Canlyniad 2021-22: 100%

### Metrig Perfformiad: CSC/042

- Canran o asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd.
- Canlyniad 2021-22: 40%
- Sylwadau: Nid yw chwarteri 1 a 2 wedi eu gwirio oherwydd absenoldeb staff partner asiantaeth.

### Metrig Perfformiad: CSC/052

- Canran o Bobl Ifanc oedd angen a dyrannwyd ymgynghorydd personol iddynt.
- Canlyniad 2021-22: 96.77%

## Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

### Metrig Perfformiad: CSC/055

- Canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal a symudodd i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod.'
- Canlyniad 2021-22: 7.48%

### Metrig Perfformiad: AD/015a

- Canran o wasanaethau Gofal Preswyl wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn.
- Canlyniad 2021-22: 47.59%

### Metrig Perfformiad: AD/015b

- Canran o wasanaethau Gofal Cartref wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn.
- Canlyniad 2021-22: 31.47%